



Cyfarfod

PWYLLGOR CYSWLLT RHEILFFORDD ARFORDIR Y CAMBRIAN

Dyddiad ac Amser

10.30 y.b., DYDD GWENER, 29AIN TACHWEDD, 2024

Lleoliad

Cyfarfod Rhithiol

***I gael mynediad cyhoeddus i'r cyfarfod, plis cysylltwch â ni**

Pwynt Cyswllt

Lowri Haf Evans

01286 679 878

lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru

(DOSBARTHWYD: 21-11-24)

PWYLLGOR CYSWLLT RHEILFFORDD ARFORDIR Y CAMBRIAN

AELODAETH

Cyngor Gwynedd

Cynghorwyr:

Elfed Wyn ap Elwyn

Louise Hughes

Elin Hywel

Anne Lloyd Jones

Eryl Jones-Williams

Gwilym Jones

Dewi Owen

Gwynfor Owen

Richard Glyn Roberts

Sedd wag – Plaid Cymru

Aelod Cabinet Amgylchedd

Cyngor Sir Ceredigion

Sedd wag

Cyngor Sir Powys

Cynghorydd J M Williams

Aelodau Cyfetholedig:

Aled Williams

Ysgol Ardudwy

Aled Jones-Griffith

Coleg Meirion Dwyfor – Grwp Llandrillo Menai

Ann Elias

Cyngor Sir Ceredigion

Chris Wilson

Cyngor Sir Ceredigion

Claire Britton

Rheilffordd Ffestiniog

Claire Williams

Partneriaeth Rheilffordd Cambrian

Cynghorydd Meryl Roberts

Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Cynghorydd Alun Wyn Evans

Cynrychiolydd Meirionnydd Un Llais Cymru

Sedd wag -

Cynrychiolydd Dwyfor Un Llais Cymru

Cynghorydd Trevor Roberts

Pwyllgor Rheilffordd Amwythig/Aberystwyth

David Crunkhorn

Trenau Arriva Cymru

David Thorp

Ysgol Uwchradd Tywyn

Delwyn Evans Grwp

Mynediad Meirionnydd

Joyce Watson

Aelod Senedd Canolbarth a Gorllewin Cymru

Liz Saville Roberts

Aelod Seneddol Llyw Prydain - Dwyfor Meirionnydd

Mabon ap Gwynfor

Aelod Senedd Dwyfor Meirionnydd

Cefin Campbell

Aelod Senedd Canolbarth a Gorllewin Cymru

Roger Goodhew

Cymdeithas Teithwyr Amwythig - Aberystwyth

Lorraine Simkiss

Rheilffordd Talyllyn

Swyddogion:

Gail Jones

Trafnidiaeth Cymru

Tomos Roberts

Network Rail

Rhian Williams

Rheolwr Cludiant Integredig a Diogelwch Ffyrdd Cyngor

Gwynedd

Cynrychiolaeth gan Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig

RHAGLEN

1. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

3. MATERION BRYD

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater bryd ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

4. COFNODION

5 - 8

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 23ain Mai 2024 fel rhai cywir

5. DIWEDDARIAD GAN WASANAETHAU

I dderbyn diweddariad gan

- Network Rail
- Trafnidiaeth Cymru
- Heddlu Trafnidiaeth Brydeinig

6. CWESTIYNAU FFURFIOL

9 - 12

I dderbyn ymateb i gwestiynau ffurfiol a dderbyniwyd:

- Cyngor Cymuned Llanbedr
- Cyngor Tref Criccieth
- Cyngor Tref Porthmadog

PWYLLGOR CYSWLLT RHEILFFORDD ARFORDIR Y CAMBRIAN

24ain Mai 2024

Cyfarfod arbennig

Presenoldeb:

Yn bresennol:

Cyng. Dewi Owen (Cyngor Gwynedd) - Cadeirydd
Cyng. Gwynfor Owen (Cyngor Gwynedd)
Cyng. Anne Lloyd Jones (Cyngor Gwynedd)
Cyng. Eryl Jones-Williams (Cyngor Gwynedd)
Cyng. Gwilym Jones (Cyngor Gwynedd)
Cyng. Louise Hughes (Cyngor Gwynedd)

Cyng. Dafydd Meurig (Aelod Cabinet Amgylchedd Cyngor Gwynedd)

Cyng. J M Williams (Cyngor Sir Powys)
Cyng. Meryl Roberts (Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri)
Bill Redfern (Cymdeithas Trenau Teithwyr Amwythig – Aberystwyth)
Delyth Griffiths (Swyddfa Plaid Cymru, Dolgellau)
Lorraine Simkiss (Rheilffordd Talyllyn)
Liz Parry (Rheilffordd Talyllyn)
Stephen Grieg (Rheilffordd Blaenau Ffestiniog)

Gail Jones (Trafnidiaeth Cymru)
James Nicholls (Trafnidiaeth Cymru)

Rhian Williams (Rheolwr Cludiant Integredig a Diogelwch Ffyrdd Cyngor Gwynedd)
Lowri Haf Evans LHE (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth Cyngor Gwynedd)

1. YMDDIHEURIADAU:

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Liz Saville Roberts (AS Dwyfor Meirionnydd), Mabon ap Gwynfor (AS Dwyfor Meirionnydd), Chris Wilson (Cyng Sir Caerfyrddin), Trefor Roberts (Pwyllgor Rheilffordd Amwythig/Aberystwyth), Cyng. Richard Glyn Roberts (Gwynedd), Ann Elias (Cyngor Sir Caerfyrddin), Cyng. Elfed Wyn ap Elwyn (Gwynedd) a Clare Britton (Rheilffordd Ffestiniog)

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

3. MATERION BRYS

Dim i'w nodi

4. COFNODION

Derbyniodd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod blaenorol y pwyllgor hwn a gynhaliwyd 22ain o Fawrth 2024 fel rhai cywir

5. NEWIDIADAU ARFAETHEDIG TRAFNIDIAETH CYMRU I AMSERLENNI RHEILFFORDD ARFORDIR Y CAMBRIAN 2024

Mewn ymateb i gyhoeddiad gan Trafnidiaeth Cymru eu bod yn bwriadu lleihau nifer teithiau ynghyd ag addasu rhai amseroedd teithiau ar reilffordd y Cambrian, gwaned cais gan rai o'r Aelodau i gynnal cyfarfod arbennig fel bod modd cynnal sgwrs gyda swyddogion Trafnidiaeth Cymru i gael mwy o wybodaeth gefndirol ar sut wnaed y penderfyniadau ynghyd ag eglurhad o'r cyfiawnhad dros y newidiadau.

Adroddwyd bod cyfarfod Grŵp Cyswllt Trafnidiaeth wedi ei gynnal yn yr Amwythig 11eg Ebrill 2024 i drafod y newidiadau. Mynegodd y Cyng. Gwynfor Owen siom bod pob penderfyniad eisoes wedi ei wneud ac nad oedd unrhyw resymeg dros ffigyrau y defnyddwyr a ddefnyddiwyd i ddod i benderfyniad gan fod y rhain yn creu argraff gamarweiniol o ddefnydd y rheilffordd. (pandemig COVID-19, gwaith sylweddol ar yr isadeiledd, sgil effaith tywydd garw, anawsterau dibynadwyaeth a pherfformiad wedi cael effaith sylweddol ar lefel y gwasanaeth ac o ganlyniad ar ddefnydd y rheilffordd).

Cyfeiriwyd at rybudd o gynnig a gafwyd yng nghyfarfod o'r Cyngor Llawn (Mai 2024) lle cynigodd y Cyng. Gwynfor Owen i Cyngor Gwynedd ddatgan yn glir i Drafnidiaeth Cymru ac i Lywodraeth Cymru (perchnogion Trafnidiaeth Cymru), nad yw unrhyw doriad yn y nifer o drenau ar Reilffordd y Cambrian yn dderbyniol, ac yn hytrach y dylid edrych ar sut i gynyddu'r nifer o drenau trwy'r flwyddyn. Derbyniwyd y cynnig yn unfrydol gan Aelodau'r Cyngor.

Amlygwyd bod Ken Skates (Ysgrifennydd y Cabinet dros Ogledd Cymru a Thrafnidiaeth), wedi cytuno gyda'r angen am doriadau o £700k er bod trenau newydd yn cael eu hychwanegu mewn rhai llefydd. Cyfeiriodd y Cyng. Eryl Jones Williams at lythyr roedd Cyngor Tref Abermaw wedi ei anfon at Ken Skates yn amlygu siom yn y newidiadau arfaethedig i wasanaeth rheilffordd ar Reilffordd y Cambrian. Roedd y llythyr yn nodi bod y cyfnod ymgynghori wedi bod yn rhy fyr (nad oedd 32 diwrnod yn ddigon o amser i gasglu ymatebion) a bod yn rhaid i ymatebwyr gofrestru i gyflwyno eu barn yn debygol o atal pobl rhag cymryd rhan.

Mewn ymateb i'r sylw, nododd Gail Jones (Trafnidiaeth Cymru) mai Adolygiad Amserlen Ar-lein oedd wedi ei gynnal i gasglu barn a gwybodaeth ar yr addasiadau, ac nid ymgynghoriad.

Sylwadau cyffredinol yn codi o'r drafodaeth ddilynol:

- Siom bod y penderfyniad wedi ei wneud cyn rhannu gwybodaeth gyda defnyddwyr. Siomedig na chafwyd unrhyw wybodaeth am y bwriad i newid yr amseroedd / teithiau yng nghyfarfod mis Mawrth 2024

- Bod cyfnod yr ymgynghoriad yn rhy fyr o lawer - pobl heb dechnoleg yn cael eu cau allan. Anodd deall nad ymgynghoriad ydoedd
- Dylai Trafnidiaeth Cymru ymgynghori cyn gwneud unrhyw newidiadau - hyn yn sarhad ar bobl yr ardal. Hynod siomedig nad oedd ymgynghoriad llawn – beth yw'r rheswm dros hyn?
- Y neges sydd yn cael ei rhannu gan Lywodraeth Cymru, yw 'nad oes buddsoddi mewn ffyrdd newydd felly defnyddiwch drafnidiaeth gyhoeddus'. Erbyn hyn maent yn gwneud toriadau i wasanaethau rheilffordd!
- Sut mae'r addasiadau yn cyd-fynd â'r Polisi Gwyrdd o leihau allyriadau carbon ac ymateb i'r argyfwng hinsawdd?
- Nifer pobl ifanc yn gadael y Sir a thrafnidiaeth yn un o'r rhesymau dros hyn.
- Y newidiadau yn gosod cyrffiw ar bobl ifanc i aros allan
- Bod y newidiadau yn gic arall i ardal wledig – nid yw'n dderbyniol
- Byddai colli gwasanaeth ynghyd ag oediad i wella gwasanaethau a cholli trenau o wasanaeth prin i ddechrau yn creu effaith enfawr ar ddefnyddwyr rheolaidd y Cambrian - yn debygol o greu anrhefn i drefniadau teithio gweithwyr, myfyrwyr a theithwyr i faes awyr Birmingham ynghyd ar effaith ar fusnesau a'r economi o golli defnydd gan ymwelwyr. Bydd toriadau yn israddio'r rheilffordd ac yn creu dyfodol ansicr i nifer.
- Yn dilyn buddsoddiad sylweddol i'r gwaith o adnewyddu Traphont Abermaw, syndod bod toriadau i'r gwasanaeth. Ystyriwyd y byddai annog cynnydd yn fodd o dalu am y gwariant.
- Cyn y toriadau, hapus gyda pherfformiad Trafnidiaeth Cymru gyda chynnydd mewn dibynadwyedd a phethau yn ymddangos yn nol i'r arfer wedi cyfnod covid: bydd y toriadau yn cael effaith sylweddol ar hyn.

Yng nghyd-destun y ffigyrau a ddefnyddiwyd i gyrraedd y penderfyniad mynegwyd anghrediniaeth mai'r ffigyrau a ddefnyddiwyd oedd defnydd o'r rheilffordd yn ystod covid-19, pan oedd gwaith sylweddol yn cael ei wneud ar yr isadeiledd, sgil effaith tywydd garw ac anawsterau dibynadwyaeth a pherfformiad. Roedd rhain i gyd wedi cael effaith sylweddol ar lefel y gwasanaeth ac o ganlyniad ar y defnydd o'r rheilffordd. Gyda hyn mewn golwg, ni fyddai modd defnyddio a dibynnu ar ddata nifer y teithwyr yn y cyfnodau yma ac felly nid oes darlun cywir na theg yn cael ei adlewyrchu. Yn ychwanegol, pan mae trenau yn llawn, yn syml, nid oes tocynnwr yn casglu arian ac felly hyn yn arwain at golledion ariannol a data camarweiniol.

Croesawyd Rhian Williams (Rheolwr Cludiant Integredig a Diogelwch Ffyrdd Cyngor Gwynedd) i'r cyfarfod ac i gynnig sylwadau am y cyhoeddiad. Nododd ei bod yn mynegi siom a bod ei sylwadau yn cyfateb gyda'r hyn oedd wedi ei nodi yn barod. Ategodd bod cais wedi ei wneud i Trafnidiaeth Cymru ail ystyried y penderfyniad, ond nad oedd ymateb wedi ei dderbyn.

Gwahoddwyd Gail Jones a James Nicholls o Trafnidiaeth Cymru i ymateb i'r sylwadau. Amlygodd y ddau bod llawer iawn o ohebiaeth wedi cael ei dderbyn ynglyn a newidiadau i amseroedd trenau'r Cambrian a bod yr holl negeseuon yn cael eu hadolygu. Ategwyd bwysigrwydd casglu tystiolaeth o'r effaith a'r angen i gyflwyno engrefftiau yn amlgyu pwysigrwydd y Cambrian – annogwyd pobl i godi eu llais.

Nododd James Nicholls bod pwysigrwydd i'r Cambrian – bod y rheilffordd yn cael ei gydnabod fel un o'r rhai gyda'r golygfeydd gorau o unrhyw reilffordd yn y byd a bod pob ymgais yn cael ei wneud i gydweithio yn lleol a gwneud y rheilffordd yn well. Ategodd, yn dilyn effaith covid bod anhawster cael y lefelau teithwyr yn ol i'r ffigyrau cyn covid, ond bod angerdd amlwg ymysg y pwyllgor i gyflwyno achos cryf a pharhau i hyrwyddo'r rheilffordd.

Mewn ymateb i gais i ymestyn y cyfnod ymateb, nodwyd nad oedd hyn yn bosib ond bod ambell sylw eisoes yn gofyn am oedi'r newidiadau am 12mis fel bod modd ail edrych ar y ffigyrau a hyrwyddo defnydd. Byddai unrhyw ddiweddariadau yn cael eu rhannu.

Mewn ymateb i sylw ynglŷn â beth oedd cyfanswm yr arbediad ac os oedd hyn yn cyfateb i'r gymhariaeth cyn covid a defnydd diweddar, nodwyd y byddai modd rhannu'r wybodaeth. Gwnaed cais ategol ar sut roedd y cyfanswm o £700mil wedi ei gyfrifo.

Mewn ymateb i bryder y byddai gyrwyr trenau yn colli swyddi, nodwyd bod Trafnidiaeth Cymru yn rhagweld y nifer staff fydd ei angen ar gyfer teithiau gan sicrhau bod staff sbâr hefyd ar gael ar gyfer salwch ayyb.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb a gyfrannwyd i'r drafodaeth. Nododd y dylai unrhyw wybodaeth neu ddiweddariad gan Trafnidiaeth Cymru o'r sefyllfa gael ei rannu gyda'r Pwyllgor.

Dechreuodd y cyfarfod am 10:30 a daeth i ben am 11:30

CADEIRYDD

Eitem 6

PWYLLGOR CYSWLLT RHEILFFORDD ARFORDIR Y CAMBRIAN 29 Tachwedd 2024

CAMBRIAN COAST RAILWAY LIAISON COMMITTEE 29 November 2024

Cwestiwn i TRAFNIDIAETH CYMRU / Question for TRANSPORT FOR WALES

Fel Cyngor yn Llanbedr yr ydym yn bryderus iawn ac yn anfodlon am y toriadau yn y gwasanaethau lein y Cambrian – gwasanaeth boreol a hwyrol. Mae hyn yn amddifadu nifer o fobl rhag defnyddio y gwasanaeth. Angen cyrraedd safle neilltuol, gyda'r bwriad o gael dychwelyd adref hefyd.

Erfynnwn arnoch I ail ystyried hyn.

Rydym yn dibynnu yn fawr ar dwristiaeth yma, ac angen y gwasanaeth.

Wedi hefyd son am gael rhoi map o'r llwybrau cyhoeddus ar y shelter, ond dim byd wedi cyrraedd hyd yma. Ydi hyn yn dal I fod ar y cardiau?

As a Council in Llanbedr we are very concerned and dissatisfied with the cuts in the Cambrian line services - morning and evening service. This deprives many people of using the service. Need to reach a particular site, with the intention of being able to return home as well.

We beg you to reconsider this.

We rely heavily on tourism here, and need the service.

Also talked about getting a map of the public paths on the shelter, but nothing has arrived so far. Is this still on the cards?

Cwestiwn i NETWORK RAIL/ Question for NETWORK RAIL

Holi beth yw'r diweddariad ar gael

1. Barriers diogelwch ar y ffordd- ffordd Mochras ger Talwrn Bach
2. Cynnwys enw Talwrn Bach ar y Station gyda enw Llanbedr
3. Beth sydd yn dod o'r Gysgodfan Newydd – mae modd adeiladu ar y platform presennol
4. Bin sbwriel – cyd fynd gyda cwestiwn yn adran 4.

Is there and update available on

1. Safety barriers on the road - Mochras road near Talwrn Bach
2. Include the name of Talwrn Bach on the Station with the name of Llanbedr
3. What comes from the New Shelter - it is possible to build on the existing platform
4. Rubbish bin - go with question in section 4.

Cwestiwn i'r PWYLLGOR / Question for COMMITTEE

Cwestiwn i UNED CLUDIANT CYNGOR GWYNEDD / Question for TRANSPORT UNIT CYNGOR GWYNEDD

Wedi gwneud cais am fin baw cwn l'w leoli ar y llwybr arfordir gerllaw ac yna bydda modd cael bin sbwriel normal ar y platform Talwrn Bach.

A oes unrhyw ddatblygiad I hyn. Wedi gwneud cais rai misoedd bellach I Gyngor Gwynedd am hyn, a hwythau wedi addo edrych I mewn I hyn.

Felly dyma godi'r cwestiwn eto.

<p>Have applied for a dog litter bin to be located on the nearby coastal path and then it will be possible to get a normal litter bin on the Talwrn Bach platform.</p> <p>Is there any development for this. Have made a request to Gwynedd Council for this a few months now, and they have promised to look into this. So the question is raised again.</p>	
<p>Cwestiwn i HEDDLU TRAFNIDIAETH PRYDEINIG / Question for BRITISH TRANSPORT POLICE</p>	
<p>Oddiwrth / From: Cyngor Cymuned Llanbedr Community Council</p>	
<p>I'w dychwelyd at To be returned to:</p>	<p>Lowri Haf Evans Gwasanaethau Democratiaeth / Democratic Services Cyngor Gwynedd / Gwynedd Council Stryd y Jel, Caernarfon Gwynedd LL55 1SH 01286 679 878 lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru</p>
<p>Erbyn / By:</p>	<p>15-11-2024</p>

**PWYLLGOR CYSWLLT RHEILFFORDD ARFORDIR Y CAMBRIAN
29 Tachwedd 2024**

**CAMBRIAN COAST RAILWAY LIAISON COMMITTEE
29 November 2024**

Cwestiwn i TRAFNIDIAETH CYMRU / Question for TRANSPORT FOR WALES

I nodi consyrn am y toriad i'r gwasanaeth, sef trê'n cyntaf y bore a'r olaf yn y nos a gofyn am ail-ystyriaeth o hyn.

To note a concern about the interruption to the service, which is the first train in the morning and the last at night and request a reconsideration of this

Cwestiwn i NETWORK RAIL/ Question for NETWORK RAIL

I nodi pryderon am ddiogelwch plant a phobl ar y bont rheilffordd sy'n un o lwybrau i'r Ysgol Newydd a gofyn iddynt adeiladau llwybr cerdded yn gyfochrog.

Hefyd, a oes modd paentio adeilad y stesion?

To identify concerns about the safety of children and people on the railway bridge which is one of the routes to the New School and ask them to build a parallel walking path.

Also, is it possible to paint the station building?

Cwestiwn i'r PWYLLGOR / Question for COMMITTEE

**Cwestiwn i UNED CLUDIANT CYNGOR GWYNEDD / Question for TRANSPORT
UNIT CYNGOR GWYNEDD**

**Cwestiwn i HEDDLU TRAFNIDIAETH PRYDEINIG / Question for BRITISH
TRANSPORT POLICE**

Oddiwrth / From: Dr Catrin Jones, Cyngor Tref Criccieth Town Council

PWYLLGOR CYSWLLT RHEILFFORDD ARFORDIR Y CAMBRIAN
29 Tachwedd 2024

CAMBRIAN COAST RAILWAY LIAISON COMMITTEE
29 November 2024

<p>Cwestiwn i TRAFNIDIAETH CYMRU / Question for TRANSPORT FOR WALES Beth fedrwch chi ei wneud i sicrhau gwell defnydd o'r Gymraeg yn eich gwasanaeth? What can you do to ensure better use of the Welsh language in your service?</p>
<p>Cwestiwn i NETWORK RAIL/ Question for NETWORK RAIL Beth fedrwch chi ei wneud i sicrhau gwell defnydd o'r Gymraeg yn eich gwasanaeth? What can you do to ensure better use of the Welsh language in your service?</p>
<p>Cwestiwn i'r PWYLLGOR / Question for COMMITTEE Beth fedrwch chi ei wneud i sicrhau gwell defnydd o'r Gymraeg yn eich gwasanaeth? What can you do to ensure better use of the Welsh language in your service?</p>
<p>Cwestiwn i UNED CLUDIANT CYNGOR GWYNEDD / Question for TRANSPORT UNIT CYNGOR GWYNEDD</p>
<p>Cwestiwn i HEDDLU TRAFNIDIAETH PRYDEINIG / Question for BRITISH TRANSPORT POLICE</p>
<p>Oddiwrth / From: CYNGOR TREF PORTHMADOG TOWN COUNCIL</p>

<p>I'w dychwelyd at To be returned to:</p>	<p>Lowri Haf Evans Gwasanaethau Democratiaeth / Democratic Services Cyngor Gwynedd / Gwynedd Council Stryd y Jel, Caernarfon Gwynedd LL55 1SH 01286 679 878 lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru</p>
<p>Erbyn / By:</p>	<p>15-11-2024</p>